# Gwaelod y Garth

## Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**22.11.24**




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's greeting

Diolch yn fawr iawn i ddosbarth 5C am gynnal gwasanaeth arbennig heddiw i'n parhau i'n hatgoffa am negeseuon allweddol gwrth-fwlio. Braf oedd gallu eich croesawu fel rhieni i weld y perfformiad – llongyfarchiadau bawb ar berfformiad clodwiw!

Roeddem yn ffodus o gael croesawu Charlotte o Wasanaeth Rhoi Organau De Cymru am gynnig gweithdai er mwyn deall ein corff a'n horganau yn well. Dysgu ymarferol ar ei orau! Mae Charlotte yn riant i ni yn yr ysgol a braf iawn bob amser yw gallu derbyn cefnogaeth rheini yn addysg ein plant. Diolch!

Bu cyfarfodydd ein Pwyllgorau Llais a'r Cyngor Ysgol yn llawn egni hyfryd a buddiol yr wythnos hon – diolch i'r staff am ei harweiniad ac i'n holl blant am leisio eu barn mor egwyddorol am faterion sydd yn bwysig i bawb yn yr ysgol. Ymhlith y prosiectau sydd o dan sylw gan y Cyngor Ysgol ar hyn o bryd mae datblygu adnoddau chwarae'r iard, datblygu adnoddau lles yn y dosbarthiadau a gwella amgylchedd Eco yr ysgol. Cadwch lygad am ddatblygiadau pellach!

Wrth i ni gychwyn paratoi at fwrlwm tymor y Nadolig, cadwch lygad hefyd am gyswllt gennym wythnos nesa am fanylion tocynnau'r Gwasanaeth Nadolig.

- - - - - - -

I begin with a big DIOLCH to Dosbarth 5C for holding a special assembly today which continued to remind us of the important messages of anti-bullying. It was great to be able to welcome you as parents to see the performance – da iawn to every pupil for a performance to be proud of.

We were fortunate to welcome Charlotte from the South Wales Organ Donation Service to deliver workshops to all our classes to better understand our body and organs. Hands-on learning at its best! We are always grateful to be able to receive the support of our own parents in our children's education. Diolch!

Our Llais (Pupil Voice) Committees and School Council meetings were full of positive energy this week – thank you to the staff for their guidance and to all our children for voicing their views so well on issues that matter to everyone at our school. Projects currently under consideration by the School Council include developing playground resources and class wellbeing resources and improving our school Eco environment. Keep an eye out for further developments!

As we begin preparations for the festivities of the Christmas season, keep an eye on your emails next week too for more information on our forthcoming Christmas Service.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**25.11.24 – 29.11.24**
Wythnos Seiclo B6
Y6 Cycling Week

**04.12.24**
Taith Nadolig 1C 1E 2C
Christmas trip 1C 1E 2C

**6.12.24** (Gwener / Friday)
**Gwasanaeth Y Lan 4C**
**4C Y Lan Service**

**06.12.24** (Gwener / Friday)
**Ffair Nadolig**
**Christmas Fair**

**11.12.24 a 12.12.24**
Gwasanaethau Nadolig
Christmas Services

**13.12.24**
Diwrnod Siwmper Dolig a Cinio Dolig
Christmas Jumper Day and Christmas Dinner

**18.12.24**
Sherman Theatre (2E)

**19.12.24**
Sioe Cyw (Derbyn)

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.

Llongyfarchiadau 5C am wasanaeth arbennnig!

Congratulations 5C on a great assembly!





Braf yw gallu cyhoeddi ein bod wedi codi **£253.12** ar gyfer elusen Diwrnod Plant Mewn Angen trwy weithgareddau'r wythnos diwethaf. Diolch eto bob cyfraniad a phob cyfranogiad.



We are pleased to announce that we raised **£253.12** for Children in Need Day through last week's activities. Diolch again every contribution and every participation.




Dysgwyr yr Wythnos

Learners of the week



Cymro / Cymraes yr Wythnos

Welsh learners of the week




Byddwn yn gwerthu tocynnau ar gyfer groto Sion Corn y Ffair Nadolig o ddydd Llun, 25/11/24 ymlaen. Bydd y tocynnau yn £3 yr un ac ar werth yn swyddfa'r ysgol ac ar yr iard ar ddiwedd y dydd.

We will be selling tickets for the Christmas Fair's Sion Corn grotto from Monday, 25/11/24. Tickets will be £3 each and on sale at the school office and yard at the end of the day.

- - - -

Bydd cyfle i enwi'r tedi eto eleni. Y gost am hyn fydd £1 yr enw, felly anfonwch eich arian gyda'ch plentyn i'r ysgol os hoffech gynnig arni!

There will be an opportuntiy name the teddy again this year. The cost for this will be £1 per name, so send your money with your child to school if you'd like to have a go!

# Stondin Siwmperi Nadolig





Mae'r Pwyllgor Eco yn awyddus i gasglu siwmperi Nadolig plant ac oedolion ar gyfer stondin werthu ar iard yr ysgol.

Bob blwyddyn mae nifer fawr o ddillad yn cael eu taflu i'r bin fel sbwriel a hoffwn leihau hyn!

Bob wythnos yn y Deyrnas Unedig, mae 6,461 tunnel o ddillad yn cael ei danfon i gladdfeydd. Yn anffodus rydym ond yn ailgylchu 1% o'n dillad. Hoffwn wella hyn!

Felly eleni, os oes hen siwmper/ siwmperi Nadolig gyda chi, hoffwn i chi ddod a nhw i'r ysgol yn lân ac mi fyddwn yn eu gwerthu ar stondin ar yr iard bob prynhawn o 1/12/24 am 15:15-15:30yp. Beth am brynu siwmper oddi wrthym ni, yn hytrach na phrynu un newydd? Mae'n gyfle gwych i leihau gwastraff!

## Dewch a'ch siwmperi Nadolig sy'n rhy fach/hen/di angen i 2E o yfory ymlaen.

Diolch am eich cefnogaeth,

Y Pwyllgor Eco.



£1



# Christmas Jumper Stall





The Eco Committee is keen to collect Christmas jumpers for children and adults for a sales stand on the school yard.

Every year a large number of clothes are thrown into the bin as rubbish and we would like to reduce this!

Every week in the United Kingdom, 6,461 tonnes of clothing is sent to landfill sites. Unfortunately we only recycle 1% of our clothes. We would like to improve this!

So this year, if you have any old Christmas jumper/s, we would like you to bring them to school and we will sell them on a stand in the yard every afternoon from 1/12/24 at 15:15-15:30pm. Why not buy a jumper from us, rather than buying a new one? It's a great opportunity to reduce waste!

## Bring your Christmas jumpers that are too small/ old/not needed to 2E from tomorrow.



Thank you for your support,

The Eco Committee.

£1

